

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL
17 RHAGFYR 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 17 Rhagfyr 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Mike Reece, Ralph Small, Andy Williams, a David Wisinger

DIRPRWYON: Cynghorwyr Dave Hughes (yn lle Ian Dinbar) a Patrick Heesom (yn lle Brian Lloyd)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau. Y Cynghorwyr Marion Bateman a Paul Shotton.

CYFRANWYR: Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol).

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

28. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

29. COFNODION

- (i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2018.
- (ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2018.

Cywirdeb

Dywedodd Dennis Hutchinson ei fod wedi anfon ei ymddiheuriadau i'r pwyllgor a gofynnodd bod y cofnodion yn cael eu newid i gofnodi hyn.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

30. TROSOLWG CWSMER DIGIDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad i roi'r sefyllfa ddiweddaraf ac i roi sicrwydd i'r Pwyllgor am yr egwyddorion dylunio sydd yn sail i greu un canolfan gyswllt fel rhan o gyflwyno thema cwsmer digidol y strategaeth ddigidol.

Dyweddodd y Prif Swyddog bod y Cabinet ym mis Mawrth 2018 wedi cytuno i greu un Canolfan Gyswllt gan ddechrau i gychwyn wrth uno'r Canolfannau Cyswllt sydd yng ngwasanaethu Strydwedd a Thai. Fe amlinellodd brif amcanion y prosiect, sef adeiladu gwytnwch o fewn y tîm cyfun i ddelio'n effeithiol gydag amseroedd prysur, absenoldeb staff a swyddi gwag, gwella darpariaeth Gymraeg, a rhoi mynediad i gwsmeriaid at sawl gwasanaeth trwy eu Cyfrif Cwsmer.

Eglurodd y Prif Swyddog fel rhan o wella gwasanaethau digidol, byddai'r Cyngor yn diweddarau galluedd ar-lein y meddalwedd tai i alluogi tenantiaid i gysylltu'n uniongyrchol i weld manylion eu cyfrif tai o dudalen Cyfrif Cwsmer Sir y Fflint ar wefan y Cyngor, a gweld manylion am eu cyfrif rhent, atgyweiriadau, ceisiadau, gwybodaeth am y cyfrif, a gwneud taliadau.

Roedd cam cyntaf y prosiect ar gyfer canolfan gyswllt cyfun yn cael ei weithredu trwy ganolbwyntio ar uno rolau Tai a Strydwedd mewn i swydd-ddisgrifiad gyffredin ar gyfer gweithwyr canolfan gyswllt a phenodi rheolwr i oruchwylio'r un gwasanaeth; adolygu a gwella'r wybodaeth a chynnwys ar wefan Sir y Fflint er mwyn i gwsmeriaid ddod o hyd i wybodaeth a hunan-wasanaethu; a gweithredu gallu ar-lein Tai. Roedd disgwyl i Gymal 1 fod yn weithredol o ganol mis Mawrth 2019, serch hynny, byddai adolygiad o'r sefyllfa staff a thechnegol yn cael ei gynnal ymlaen llaw i sicrhau y byddai gwasanaethau'n cael eu cyflwyno heb unrhyw amhariad i'r ansawdd.

Dyweddodd y Prif Swyddog bod trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda gwasanaethau eraill i adnabod a chytuno ar sgôp gwasanaethau a allai gael eu symud i'r ganolfan gyswllt gyfun yn nes ymlaen. Y bwriad oedd cael canolfan gyswllt cwbl gyfun yn gweithredu o Dŷ Dewi Sant, Ewloe o fis Ebrill 2020. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai adroddiad pellach am y Strategaeth Ddigidol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i roi diweddariad am gynnydd yn gynnar flwyddyn nesaf. Cyfeiriodd hefyd at y gweithdy Strategaeth Ddigidol a fyddai'n cael ei gynnal i bob Aelod ar 16 Ionawr 2019.

Gofynnodd y Cynghorydd Geoff Collett a fyddai'r strategaeth ddigidol yn cael ei gyflawni ar amser. Cyfeiriodd hefyd at yr arian buddsoddi i arbed a oedd wedi'i ddyrannu, sef £550,000, a gofynnodd ai un dyraniad oedd hwn neu ddyraniad blynyddol. Wrth ymateb dywedodd y Prif Swyddog bod y rhaglen ar y trywydd ar gyfer ganol Mawrth y flwyddyn nesaf, serch hynny, byddai asesiad o barodrwydd i'r gwasanaethau fod yn 'fyw' yn cael ei gynnal ymlaen llaw i sicrhau na fyddai unrhyw amhariad i'r gwasanaethau. Gan gyfeirio at £550,000 a oedd wedi'i ddyrannu, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd hwn yn gost flynyddol a byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu tair swydd allweddol newydd er mwyn cyflwyno prosiect, meddalwedd a thrwyddedau Cwsmer Digidol. Dywedodd y Prif Swyddog bod costau'n cael eu tracio a'u monitro a bod y sefyllfa bresennol o ran staffio yn niwtral o ran cost neu fod arbediad bychan i'w gyflawni.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones am sicrwydd y byddai gwasanaeth ffôn yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol ac fe soniodd am anghenion pobl oedrannus sydd heb fynediad i wasanaethau ar-lein gartref. Gofynnodd y Cynghorydd Jones hefyd a fyddai opsiwn 'ffonio nôl' yn cael ei ddarparu er mwyn osgoi costau uchel i breswylwyr ar incwm isel, ac a fyddai data'n cael ei ddarparu

am y nifer o alwadau dro ar ôl tro a wneir ar fater penodol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog nad oedd bwriad i gael gwared ar y gwasanaeth ffôn ac eglurodd mai nod y Strategaeth oedd gwella nifer y gwasanaethau ac ystod y natur ymarferol dros y we i ddarparu mwy o fynediad i breswylwyr at wasanaethau ar amser a lleoliad oedd yn gyfleus iddyn nhw. Dywedodd y byddai staff yn y Ganolfan Gyswllt yn ymgysylltu gyda chwsmeriaid ac yn eu cefnogi i hunan-wasanaethu trwy wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r cyfleusterau oedd ar gael i breswylwyr yn cael eu hysbysebu'n eang ar wefan y Cyngor i leihau faint o alwadau a wneir.

Wrth ymateb i sylw gan y Cynghorydd David Wisinger, dywedodd y Prif Swyddog y byddai galwadau'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol a byddai cefnogaeth arbenigol ar gael i fynd i'r afael ag ymholiadau mwy cymhleth a chynorthwyo'r henoed neu bobl ddiameddifyn. Fe eglurodd hefyd bod y nifer o alwadau mewn dydd yn cael eu cofnodi ac roedd hyn yn cynnwys y nifer o alwadau nad oedd yn cael eu cwblhau am ba bynnag reswm.

Mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon nad oedd gan rai preswylwyr oedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig fynediad i wasanaethau ar y we gartref, na'r sgiliau TG na'r modd ariannol i fforddio cludiant i ganolfannau cyswllt y tu allan i'w cymuned. Pwysleisiodd yr angen am sgwrs wyneb yn wyneb a dywedodd nad oedd cyswllt ar y ffôn o bell neu wasanaethau ar-lein yn addas na'n hawdd ei ddefnyddio mewn ardaloedd difreintiedig. Gofynnodd bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynyddu'r nifer o Ganolfannau Cyswllt yn benodol mewn ardaloedd difreintiedig. Fe ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau gan ddweud eto y byddai'r Strategaeth Ddigidol yn gwella'r gwasanaethau presennol sy'n cael eu darparu i breswylwyr a chynyddu mynediad i wasanaethau y tu hwnt i oriau gwaith arferol ar amser a lleoliad oedd yn gyfleus i'r unigolyn. Eglurodd fod gan yr Awdurdod 5 Canolfan Gyswllt ar draws y Sir a byddai staff yn y Canolfannau yn gallu rhoi cymorth personol i breswylwyr a gweithio ar y cyd â'r Ganolfan Gyswllt i ddatrys ymholiadau a chefnogi pobl i hunan-wasanaethu.

Mynegodd y Cynghorydd Janet Axworthy ei gwerthfawrogiad i Brif Swyddogion a'u timau am y gwaith caled a chynllunio oedd wedi cael ei wneud i gyfuno timau Strydwedd a Thai mewn i un tîm cyfun ac adleoli i Dŷ Dewi Sant, Ewloe.

Fe soniodd y Cynghorydd Tudor Jones am yr angen i hyrwyddo'r Strategaeth Ddigidol er mwyn i'r cyhoedd gael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael ar wefan y Cyngor a sut y gallent gael gafael arnynt, gan nodi gwybodaeth mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd cyhoeddus fel enghraifft. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai defnyddio gwasanaethau digidol yn cynorthwyo pobl gydag anabledd trwy gynyddu hygyrchedd. Roedd yn cydnabod y pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Jones a dywedodd bod angen hyrwyddo ymwybyddiaeth gydag awdurdodau lleol eraill, gan nodi Sir Ddinbych a Wrecsam fel enghreifftiau o'r gwasanaethau digidol sydd ar gael yn Sir y Fflint i breswylwyr sy'n byw'n agos at ffiniau Sir y Fflint.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom yn gyntaf oll y dylai'r system fod yn seiliedig ar anghenion y bobl nid yn seiliedig ar y gwasanaeth, a dywedodd y dylid sicrhau darpariaeth i breswylwyr sydd heb gyswllt uniongyrchol yn eu hardal leol. Wrth ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Heesom eglurodd y

Prif Swyddog nad oedd cyllid ychwanegol ar gael i gynyddu nifer y Canolfannau Cyswllt. Dywedodd unwaith eto y byddai gwasanaeth ffôn yn parhau i gael ei ddarparu gyda chyfleuster ychwanegol i bobl i hunan-wasanaethu trwy wasanaeth gwe y Cyngor. Byddai modd gwneud apwyntiadau i ymweld â Thŷ Dewi Sant, Ewloe a byddai modd i bobl gael cymorth personol mewn Canolfan Gyswllt.

Gofynnodd y Cynghorydd David Wisinger pa wasanaeth wrth gefn oedd ar gael ar gyfer systemau TGCh yn Nhŷ Dewi Sant. Dywedodd y Prif Swyddog bod cefnogaeth wrth gefn yn cael ei ddarparu gan Wasanaethau Gwybodaeth a Busnes yn Neuadd y Sir, a dyma oedd y gefnogaeth oedd yn cael ei ddarparu i safleoedd yr Awdurdod mewn ardaloedd eraill.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones a oedd mesurau ar waith i fynd i'r afael â galwadau ffôn neu ymholiadau wyneb i wyneb camdriniol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r egwyddorion cynllunio sydd yn sail i greu un Canolfan Gyswllt ac yn cefnogi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflwyno thema Cwsmer Digidol y Strategaeth Ddigidol.

31. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19 - MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad er mwyn monitro cynnydd ganol blwyddyn 2018/19 ar gyfer blaenoriaeth 'Cyngor sy'n Cysylltu' sy'n berthnasol i'r Pwyllgor sydd i'w weld yng Nghynllun y Cyngor. Dywedodd bod yr adroddiad canol blwyddyn yn dangos bod 88% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da a bod 81% yn debygol o gyflawni'r canlyniadau bwriadedig. Roedd 79% o ddangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu fynd y tu hwnt i'w targed. Roedd risgiau'n cael eu rheoli gyda chyfran fechan o 18% wedi'u hasesu fel rhai mawr.

Gofynnodd Patrick Heesom am y dangosydd perfformiad oedd yn ymwneud â chyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus er mwyn rhoi cymhorthdal am fodolau amgen. Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) at yr adborth cadarnhaol o gyfarfodydd adolygu am ffigurau blwyddyn gyntaf o fasnachu ar gyfer modelau darparu amgen, serch hynny, dywedodd bod yr heriau i gyllid cyhoeddus yn parhau a dyma oedd y rheswm am y raddfa risg bresennol. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod y cynlluniau busnes ar gyfer modelau darparu amgen yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom bod cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod y cyllid sydd ar gael i drosglwyddo asedau o fewn y Cynnig Twf.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Canol Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2018/19 er mwyn monitro tan berfformiad a chodi nifer o faterion gyda Swyddogion.

32. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried. Fe dynnodd sylw at yr eitemau a fyddai'n cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Ionawr 2019, a chyfeiriodd at yr eitem am Bwll Nofio Cei Connah – Adroddiad Cynnydd Canol Blwyddyn Cambrian Aquatics 2018/19. Eglurodd yr Hwylusydd bod Aelodau Bwrdd Cambrian Aquatics wedi cael trafferth mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar 28 Ionawr, ac fe awgrymwyd bod amser a lleoliad y cyfarfod yn cael ei ailystyried er mwyn iddynt allu mynychu. Fe awgrymodd y Cadeirydd bod aelodau yn ystyried cynnal cyfarfod fin nos yn Cambrian Aquatics, Cei Connah, er mwyn i Aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol. Pan gafwyd pleidlais, ni chymeradwywyd hyn. Cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog yn adrodd yn ôl i Cambrian Aquatics am y mater o bresenoldeb yn y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 28 Ionawr.

Cafodd yr aelodau wybod y byddai eitem bellach i roi diweddariad am y Strategaeth Ddigidol yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;
a
- (b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn cael amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

33. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.35 am)

.....
Cadeirydd